**Cyngor Sir Powys – Cynllun Deiseb**

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Powys yn croesawu deisebau ac yn cydnabod eu bod yn fodd i unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau fynegi eu safbwyntiau a'u pryderon ynghylch rhywbeth y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano. Mae Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor [sydd wrthi'n cael ei datblygu] yn esbonio'r ffyrdd eraill y gallwch gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Cyn ystyried a ydych am ddechrau deiseb ai peidio, efallai yr hoffech drafod eich problem â Chynghorydd eich Ward lleol. Efallai y bydd yn gallu'ch helpu gyda'r broblem neu esbonio sut i gyflwyno sylwadau am bwnc penodol i'r person cywir yn y Cyngor. Mae manylion am sut i gysylltu â'ch Cynghorydd lleol ar gael ar wefan y Cyngor: Eich Cynghorwyr.

## 2. Beth yw deiseb?

Deisebau yw un o'r ffyrdd mwyaf uniongyrchol o awgrymu sut y gallai rhywbeth newid. Gall deisebau:

- Godi ymwybyddiaeth am broblem;
- Creu newid ym mholisi'r Cyngor neu ffordd wahanol o gyflenwi gwasanaethau;
- Arwain at, neu ddylanwadu ar ddadl yn y Cyngor;
- Annog Pwyllgor neu Aelodau unigol o'r Cyngor i weithredu ymhellach eu hunain, er enghraifft drwy ofyn cwestiynau.

## 3. Pwy all drefnu deiseb?

Gall unrhyw un sy'n 10 oed neu'n hŷn ac sy'n byw, gweithio neu astudio yn ardal Cyngor Sir Powys gyflwyno neu arwyddo deiseb.

## 4. Sut ydw i'n cyflwyno fy neiseb?

Gellir cyflwyno deiseb yn un o'r ffyrdd canlynol:

- cyfleuster e-ddeiseb –ar wefan Cyngor Sir Powys – ble y gallwch greu, arwyddo a chyflwyno ar-lein. Defnyddiwch y ddolen ganlynol Cynllun Deiseb
- e-bost – i'r cyfeiriad e-bost hwn democraticservicesandscrutiny@powys.gov.uk
- gellir anfon deisebau papur i'r Swyddog Monitro, Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys LD1 5LG.

Bydd gofynion y Cynllun Deiseb hwn yn gymwys i ba bynnag un o'r uchod a ddefnyddir. Sicrhewch eich bod chi'n dilyn y wybodaeth isod a'r wybodaeth a ddarparwyd yn Atodiad A, sy'n fanylach. Drwy ddilyn hyn, byddwch yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i ystyried eich deiseb o dan y cynllun hwn.

Ni chaiff deisebau eu derbyn oddi wrth systemau deisebau ar-lein eraill.

## 5. Am beth all deisebau fod?

Dylai deiseb gynnwys datganiad clir am eich pryderon a beth yn hollol hoffech chi i'r Cyngor ei wneud. Rhaid iddo fod yn berthnasol i rywbeth y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano, neu y gall ddylanwadu arno'n rhesymol ac yn ôl ei gyfran i greu gwelliant o ran llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal leol.

Pan fo testun y ddeiseb yn effeithio ar wardiau penodol, caiff y cynghorwyr sy'n cynrychioli'r wardiau hynny eu hysbysu bod y ddeiseb wedi cael ei derbyn.

## 6. A all deisebau gael eu cyflwyno i Bwyllgorau penodol?

Gellir cyflwyno deisebau i'r Cyngor Llawn, Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau eraill [ac eithrio Pwyllgorau Rheoleiddio mewn perthynas â cheisiadau penodol, fel cynllunio, trwyddedu neu hawliau tramwy].

## 7. A oes angen i ddeiseb gael isafswm o enwau a sut gaiff y ddeiseb ei hystyried?

Dylai'r isafswm o enwau dilys fod yn 50 o leiaf (gan gynnwys trefnydd y ddeiseb) er mwyn i'r ddeiseb gael ei derbyn fel deiseb ddilys. Rhoddir ystyriaeth i'r ddeiseb fel a ganlyn:

- 50 - 200 llofnod – Ymateb oddi wrth y Cyfarwyddwr / Aelod arweiniol perthnasol (caiff y ddeiseb ei thrin fel gohebiaeth arferol)
- O leiaf 200 llofnod – Caiff ei chyfeirio at yr Arweinydd / Gweithrediaeth am ymateb
- O leiaf 500 llofnod – Caiff ei chyfeirio ar gyfer trafodaeth / dadl mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn
- O leiaf 500 llofnod – Caiff Uwch Swyddogion eu galw i ddarparu tystiolaeth mewn cyfarfod Pwyllgor Craffu a Throsolwg pan fo gweithredu o'r fath yn ofynnol yn y ddeiseb.

Bydd pobl sy'n llofnodi o'r tu allan i Bowys yn cael eu hystyried mewn perthynas â'r mater a gaiff ei godi ond ni fyddant yn cyfri tuag at y niferoedd sy'n ofynnol ar gyfer dadl ffurfiol o dan y cynllun.

## 8. Beth allai canlyniad posibl fy neiseb fod?

Gallai canlyniad eich deiseb fod yn un neu'n gyfuniad o'r canlynol:

- creu cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth ynghylch problem / mater
- rhoi ar waith y gweithredu y mae'r ddeiseb yn galw amdano
- ystyried y ddeiseb mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn
- ymgymryd ag ymchwil i'r mater
- cyfeirio'r mater at y Cabinet, Pwyllgor Craffu neu Bwyllgorau eraill
- ymateb i drefnydd y ddeiseb gan esbonio safbwynt y Cyngor ynghylch y cais y mae'r ddeiseb yn gofyn amdano

- rhyw ymatebiad priodol arall.

## 9. A oes yna resymau dros beidio â derbyn deiseb?

Mae'n bosibl y caiff eich deiseb ei gwrthod os yw Swyddog Monitro'r Cyngor yn ystyried ei bod yn:

- Cynnwys iaith anghymedrol, ymfflamychol, dilornus neu bryfoclyd
- Difenwol, gwamal, blinderus, gwahaniaethol neu'n sarhaus mewn modd arall neu'n cynnwys datganiadau ffug
- Rhy debyg i ddeiseb arall a gafodd ei chyflwyno o fewn y chwe mis diwethaf, yn enwedig ble y gweithredwyd ymhellach o ganlyniad i dderbyn y ddeiseb.
- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig, gan gynnwys gwybodaeth a ddiogelir gan orchymyn llys neu adran lywodraethol neu'n datgelu gwybodaeth y gellir ei hystyried yn fasnachol sensitif
- Enwi unigolion neu'n darparu gwybodaeth ble y mae'n hawdd eu hadnabod gan fynd yn groes i reoliadau GDPR.
- Cynnwys datganiadau hysbysebu neu'n nonsens.
- Cyfeirio at fater sydd ar hyn o bryd yn destun cwyn ffurfiol y Cyngor, neu ymgynghoriad, cwyn ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus Cymru neu unrhyw achosion cyfreithiol.
- Nid yw'n berthnasol i fater y mae gan y Cyngor bŵer neu ddyletswyddau drosto, neu y mae'n rhannu cyflawni cyfrifoldebau yn ei gylch
- Perthnasol i benderfyniadau cynllunio neu drwyddedu a ble fo gweithdrefn apeliadau mewn lle.
- Cyfeirio at gŵyn ynghylch ymddygiad cynghorydd - mae angen i gwynion gael eu gwneud i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru [PSOW] Sut i gwyno <https://www.ombudsman.wales/how-to-complain/>
- Perthnasol i faterion cyflogai, am y byddant yn cael sylw drwy gyfrwng fframweithiau mewnol sy'n bodoli eisoes.
- Un ai'n gais Rhyddid Gwybodaeth [FOI], neu'n gwneud sylw ar, yn canmol neu'n cwyno. Mae gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor fel a ganlyn:
    - Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth Gwneud Cais Rhyddid Gwybodaeth [neu EIR]
    - Cyflwyno sylwadau, canmoliaeth a chwynion: Sylwadau, canmoliaeth a chwynion
- Cyfeirio at faterion sydd eisoes wedi bod drwy broses ymgynghoriad cyhoeddus (statudol neu fel arall)

Os yw deiseb yn cael ei hystyried yn annerbyniol caiff trefnydd y ddeiseb ei hysbysu a'i ddarparu â'r rhesymau dros ei gwrthod.

## 10. A oes yna unrhyw adegau pan na chaiff deiseb ei hystyried?

Mewn cyfnod sydd union cyn etholiad neu refferendwm mae'n bosibl y bydd angen i'r Cyngor ddelio â deisebau mewn ffordd wahanol – os felly, caiff esboniad o'r rhesymau ei ddarparu gydag amserlen cymwys wedi'i ddiwygio.

## 11. Beth allaf i ei wneud os rwy’n teimlo nad yw fy neiseb wedi cael ei thrin yn y modd cywir?

Os ydych chi’n teimlo nad ydym wedi delio â’ch deiseb yn gywir, cysylltwch â’r Swyddog Monitro a fydd yn adolygu eich cwyn. Bydd angen i chi ddarparu esboniad byr o’r rhesymau pam nad ydych chi’n teimlo bod eich deiseb wedi cael yr ymdriniaeth gywir. Y Swyddog Monitro, Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG.

## 12. Adolygiad

Caiff telerau ac amodau Cynllun Deiseb y Cyngor eu hadolygu un waith bob tymor y Cyngor.

**Canllawiau perthnasol i ddeisebau**

- Sut ydw i'n creu a chyflwyno e-ddeiseb?
- Sut ydw i'n arwyddo e-ddeiseb?
- Sut ydw i'n cyflwyno deisebau drwy e-bost neu ar fformat papur?
- Beth fydd y Cyngor yn ei wneud pan fydd e-ddeiseb yn cau neu pan fydd yn derbyn fy neiseb a gyflwynwyd drwy e-bost neu ar fformat papur?
- Beth sy'n digwydd os yw deiseb am gael ei thrafod yn y Cyngor Llawn?

**Sut ydw i'n creu a chyflwyno e-ddeiseb?**

Gallwch greu a chyflwyno eich e-ddeiseb ar ein gwefan Cynllun Deiseb . I gyflwyno e-ddeiseb bydd angen i chi gofrestru ar dudalen ddeiseb y Cyngor.

Bydd angen i'ch e-ddeiseb gynnwys y canlynol:

- Teitl
- Datganiad sy'n esbonio'n glir pa weithredu yr hoffech i'r Cyngor ei wneud
- Unrhyw wybodaeth yr ydych yn teimlo sy'n berthnasol i'r e-ddeiseb a rhesymau pam eich bod chi'n ystyried i'r cais am weithredu fod yn angenrheidiol. Gallwch hefyd gynnwys dolenni i wefannau perthnasol eraill.
- Dyddiad yr hoffech i'ch e-ddeiseb fynd yn "fyw" ar y wefan. Rhowch ddigon o amser i'r Cyngor ystyried addasrwydd y ddeiseb a thrafod unrhyw faterion â chi. Os yw eich e-ddeiseb yn cael ei derbyn [gweler isod] bydd angen 14 diwrnod gwaith ar y Cyngor i'w chyfieithu i'r Gymraeg neu'r Saesneg a'i hychwanegu at y system e-ddeiseb ar-lein.
- Dyddiad pan fydd eich e-ddeiseb yn stopio casglu enwau. Efallai yr hoffech ystyried y dyddiad hwn yn unol â chalendr o gyfarfodydd i sicrhau bod y ddeiseb yn cael ei chyflwyno cyn cyfarfod perthnasol y Cyngor. Byddwn yn cynnal eich deiseb yn awtomatig am un mis.
- Eich enw – fel trefnydd y ddeiseb, bydd eich enw'n cael ei arddangos gyda'ch e-ddeiseb ar wefan y Cyngor.
- A ydych yn rhedeg deiseb bapur hefyd, er y caiff enwau sy'n cael eu hailadrodd eu tynnu i ffwrdd. Dylai'r ddwy ffurf ar y ddeiseb redeg am yr un cyfnod o amser a chael eu cyflwyno ynghyd.

Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd am y deisebau ar y wefan.

Ar ôl i chi gyflwyno eich e-ddeiseb, byddwch yn derbyn e-bost i gadarnhau ei bod wedi cael ei derbyn. Yna bydd y Swyddog Monitro yn ei hystyried yn erbyn y rheolau ar gyfer deisebu yn erbyn y Cyngor, a bydd yn cysylltu cyn gynted ag bo'n bosibl i roi gwybod i chi a yw wedi cael ei derbyn ai peidio a bod yn ddeiseb "fyw" ar wefan y Cyngor. Os nad yw wedi cael ei derbyn byddwch yn derbyn e-bost yn esbonio'r rhesymau. Byddwch yn gallu newid ac ailgyflwyno eich e-ddeiseb os dymunwch. Os na fyddwch yn gwneud hyn o fewn 10 niwrnod gwaith, caiff crynodeb o'r ddeiseb a'r rheswm pam na chafodd ei derbyn eu cyhoeddi o dan adran gwrthod deiseb ar y wefan.

**Sut ydw i'n arwyddo e-ddeiseb?**

Caiff e-ddeisebau "byw" eu rhestru ar ein gwefan – Cynllun Deiseb

Pan fyddwch yn arwyddo e-ddeiseb, bydd gofyn i chi ddarparu eich enw, cod post a chyfeiriad e-bost dilys. Yna caiff e-bost ei hanfon i'r cyfeiriad e-bost rydych wedi ei ddarparu a bydd angen i chi glicio'r ddolen a ddarperir i gadarnhau bod y cyfeiriad e-bost yn ddilys. Ar ôl i chi wneud hyn, caiff eich 'llofnod' ei ychwanegu at y ddeiseb. Bydd pawb sy'n ymweld â'r e-ddeiseb yn gallu gweld eich enw ar y rhestr o'r rheini sydd wedi arwyddo ond ni fydd eich manylion cyswllt i'w gweld.

Pan fydd e-ddeiseb wedi cyrraedd ei dyddiad cau, ni fydd pobl yn gallu ei harwyddo mwyach.

**Sut i gyflwyno deisebau drwy e-bost neu ar fformat papur**

Defnyddiwch y templed a awgrymir fan hyn. Dylai tudalennau ychwanegol hefyd gynnwys testun y ddeiseb ar frig y dudalen a hefyd rhif y dudalen a chyfanswm y tudalennau er enghraifft byddai tudalen 7 o ddeiseb10 tudalen yn dangos y canlynol: 7 o 10 tudalen.

**Deiseb i Gyngor Sir Powys**

**Manylion cyswllt trefnydd y Ddeiseb**

| | |
|---|---|
| **Enw Llawn** | |
| **Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth** | Llinell 1af: ------------------------------------------------------------<br>2il Linell: ------------------------------------------------------------<br>3ydd Llinell: ---------------------------------------------------------<br>Cod post: ------------------------------------------------------------ |
| **Rhif ffôn cartref** | |
| **Rhif ffôn symudol** | |
| **Cyfeiriad e-bost** | |
| **Byw / Gweithio / Defnyddiwr Gwasanaeth / Astudio (nodwch bob un sy'n gymwys)** | |

| | |
|---|---|
| | |
| **Llofnod** | |

:

**DEISEB**

| | |
|---|---|
| | **Pwnc/Testun y ddeiseb:** |
| | **Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn deisebu'r Cyngor i wneud y canlynol:** |
| | **Crynodeb o'r gweithredu a wnaed eisoes (os yw'n gymwys):** |

| **Enw** | **Cyfeiriad [yn cynnwys cod post]** | **Llofnod** | **Cyfeiriad e-bost [os yw'n bosibl]** | **Os nad ydych chi'n breswyliwr ym Mhowys, rhowch enw a chyfeiriad eich gweithle neu eich man astudio** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**Beth fydd y Cyngor yn ei wneud pan fydd e-ddeiseb yn cau, neu pan fydd yn derbyn fy neiseb wedi'i chyflwyno drwy e-bost neu ar fformat papur?**

- Caiff cydnabyddiaeth ei hanfon i drefnydd y ddeiseb o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl cau e-ddeiseb neu ar ôl derbyn deiseb drwy e-bost neu ar fformat papur.
- Deil y Cyngor ar yr hawl i ddilysu enwau fel sy'n ofynnol. Dylai deisebwyr sicrhau bod cyfeiriad a chod post dilys yn cael eu cynnwys i'r holl ddeisebwyr sy'n berthnasol i gyfeiriad cartref (os yw'n byw ym Mhowys) neu gyfeiriad gwaith (os yw'n gweithio neu'n rhedeg busnes ym Mhowys). Rhoddir ystyriaeth i'r manylion hyn wrth ddynodi a oes yna ddigon o lofnodion oddi wrth bobl sy'n byw neu'n gweithio ym Mhowys i sbarduno dadl y Cyngor Llawn.
- Bydd y Cyngor yn ystyried y ddeiseb ac yn hysbysu trefnydd y ddeiseb, os yw'n bosibl yn yr e-bost cydnabyddiaeth, sut y bydd yn ymateb i'r ddeiseb, a all fod yn un o'r canlynol:
    - Os yw'r Cyngor yn ystyried y gall ddiwallu gofynion y ddeiseb, gall y Cyngor gadarnhau pa weithredu sydd wedi ei wneud ynghylch y cais a chaiff y ddeiseb ei chau.
    - Os oes unrhyw weithredu arall yn cael ei gynnig neu ei fwriadu
    - Os oes angen rhagor o ymchwilio i'r ddeiseb, caiff hyn ei esbonio.
    - Dylai isafswm yr enwau dilys fod o leiaf 50 (yn cynnwys trefnydd y ddeiseb) er mwyn derbyn deiseb fel un ddilys. Caiff y ddeiseb ei hystyried fel a ganlyn:
        - 50 - 200 llofnod – Ymateb oddi wrth y Cyfarwyddwr / Aelod arweiniol perthnasol (caiff ei thrin fel gohebiaeth arferol)
        - O leiaf 200 llofnod – Caiff ei gyfeirio at yr Arweinydd / Gweithrediaeth am ymateb
        - O leiaf 500 llofnod – Caiff ei gyfeirio at drafodaeth / dadl mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn
        - O leiaf 500 llofnod – Galw ar Uwch Swyddogion i ddarparu tystiolaeth mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu a Throsolwg pan fo gweithredu o'r fath yn ofynnol ar y ddeiseb.
- Er mwyn sicrhau fod pobl yn gwybod beth mae'r Cyngor yn ei wneud i ymateb i'r deisebau a dderbyniwyd, caiff manylion yr holl ddeisebau, ym mha fformat bynnag, gan gynnwys y rhieni sy'n aros am weithredu, eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, ac eithrio mewn achosion pan fyddai hynny'n amhriodol.

**Beth sy'n digwydd os yw deiseb am gael ei thrafod mewn Cyngor llawn?**

Os yw deiseb yn cynnwys mwy na 500 llofnod oddi wrth bobl sy'n gweithio neu'n byw ym Mhowys, caiff ei thrafod gan y Cyngor Llawn. Mae hyn yn golygu y caiff y ddeiseb ei chynnwys ar agenda cyfarfod y Cyngor Llawn.

Os yw trefnydd y ddeiseb yn dymuno manteisio ar y cyfle hwn, caiff dri munud i gyflwyno'r ddeiseb. Yna, bydd y Deiliad Portffolio Cabinet perthnasol yn cael yr hawl i ymateb ac yna caiff y ddeiseb ei thrafod gan Gynghorwyr. Bydd gan drefnydd y ddeiseb hawl i ymateb hyd at dri munud ar ddiwedd y drafodaeth cyn bod penderfyniad neu bleidlais derfynol yn mynd rhagddynt. Bydd y drafodaeth yn para hyd at 30 munud fan hiraf.

Bydd trefnydd y ddeiseb yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig, o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl canlyniad trafodaeth y Cyngor Llawn, ac o benderfyniad y Cyngor ac unrhyw esboniad pan na fydd y Cyngor yn gallu gweithredu yn y modd y gofynnwyd iddo wneud. Caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi ar y wefan hefyd.

**Diogelu data a GDPR**

Os fyddwch chi'n creu a chyflwyno e-ddeiseb neu'n arwyddo e-ddeiseb, bydd gofyn eich bod chi'n darparu gwybodaeth bersonol. Mae gwybodaeth bersonol hefyd yn ofynnol pan fyddwch yn arwyddo deiseb bapur.

Y Cyngor sy'n rheoli data ar gyfer gwybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu ar gyfer e-ddeisebau a deisebau papur. Mae'r ddolen ganlynol at wefan y Cyngor mewn perthynas â **Diogelu Data a Phreifatrwydd**

Yn dilyn cyfnod o 21 dydd ar ôl i'r Cyngor ymateb yn ffurfiol, caiff deiseb bapur ei dileu, oni bai yn ystod y cyfnod hwnnw, bod trefnydd y ddeiseb wedi gofyn am adolygiad. Fodd bynnag, pe byddech am i'ch enw gael ei gymryd i ffwrdd cyn yr adeg hon, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data drwy e-bost yn Information.Compliance@powys.gov.uk a ffonio 01597 826400.